# Cenn@d

AWST 30 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 131

## Deffrwch! neu fydd 'na ddim coffi



Andrew Sully yn annerch o flaen y murlun newid hinsawdd



Profi'r coffi ar y stondin

'Erbyn i chi orffen eich brecwast heddiw, fe fyddwch chi wedi dibynnu ar fwy na hanner gweddill y byd.'

Dyfyniad enwog Dr Martin Luther King, sydd wedi cael ei ddefnyddio yn aml iawn dros y blynyddoedd gan Gymorth Cristnogol i hybu'r pwysigrwydd o gefnogi a phrynu cynnyrch Masnach Deg, gan ddangos sut mae ein bywydau dros y byd yn cysylltu â'i gilydd, ein dibyniaeth ar ein gilydd yn ddyddiol, a sylweddoli hyn er mwyn cynnal heddwch dros y byd.

Braint oedd cael bod yn rhan o Babell yr Eglwysi eleni yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Dyma'r tro cyntaf, dwi'n credu, i Gymorth Cristnogol wneud hyn yn hytrach na chael uned drws nesa! Roedd yn fendith bod ymysg yr enwadau a chefnogwyr bob dydd a chael cyfle i sgwrsio, i ddiolch a dathlu'r holl waith sy'n digwydd ar draws Cymru.

Anghyfiawnder Hinsawdd ac ymgyrch #RiseUpPayUp oedd ein thema, gan ddefnyddio coffi fel ffocws. Ydych chi'n dal i arogli'r coffi yn y babell? Neu'n dal i drio dewis rhwng coffi o Kenya neu Colombia? Ffermydd bychain sy'n cynhyrchu'r coffi oedd gennym, a'r ffermwyr yma a'u cymunedau dros y byd sydd yn byw ar flaen newidiadau yn yr hinsawdd. Mae tyfu coffi yn sensitif iawn i newidiadau anwadal y tywydd a'r canlyniad yw fod planhigion yn cnydu llai o ffrwythau. Wrth i dymheredd y byd godi gallwn weld gostyngiad o tua 50% yn y tir sy'n addas ar gyfer tyfu coffi a chynnydd yn y pryfed a'r afiechydon all ddifa'r planhigion coffi.

Nid coffi yn unig sy'n agored i'r risg yma wrth gwrs.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar gymunedau bregus dros y byd. Mae pobl yn colli eu cartrefi, yn colli tir ar gyfer tyfu bwyd ac yn colli eu bywoliaeth o ganlyniad i stormydd cryfach, tanau, llifogydd a methu rhag-weld y glaw sy'n cael dylanwad ar gynhyrchu bwyd ar draws y byd.

Dyma yw'r cynllun Colled a Difrod, fel y bu i'r Parch. Andrew Sully, Pennaeth Cymorth Cristnogol, egluro yn ei gyflwyniad ddydd Llun. Yn gefndir i sgwrs Andrew yr oedd murlun a grëwyd wrth ailgylchu hwyl cwch gan yr artist Ffion Roberts-Drakley. Y briff i Ffion oedd murlun yn dangos cread Duw yn ei holl gyflawnder ac yn arwain at anghyfiawnder hinsawdd. Mae'r dyfyniad o Hosea 4:3 yn ysgytwol. Bydd y gwaith hwn ar gael i deithio o gwmpas Cymru dros y misoedd nesaf wrth i ni ymgyrchu a chodi llais dros gymunedau mwyaf bregus y byd cyn COP28 ym mis Tachwedd.

Cefnogi teuluoedd i godi allan o dlodi eithafol yng nghefn gwlad Malawi drwy ddatblygu bywoliaeth gynaliadwy a chynyddu incwm y mae prosiect REAP (Risk-informed Early Action Partnership). Cefnogwyd y prosiect yma gyda chasgliad anrhydeddus iawn o £700 yn dilyn oedfa bore dydd Sul yr Eisteddfod. Ond gan fod y prosiect yn derbyn arian cyfatebol, bydd y casgliad hwn yn gwneud gwaith fydd yn werth £1,400 yn Malawi! Llongyfarchiadau a diolch am bob cyfraniad ac i bob casglwr yn y pafiliwn.

Hadau Gobaith (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Ffynhonnau Byw (Undeb yr Annibynwyr) a Talentau Gobaith (Undeb y Bedyddwyr) – nid yn unig y mae'r rhain yn gyfle i enwadau ar draws Cymru berchnogi apel arbennig a chefnogi gwaith Cymorth Cristnogol, ond o ganlyniad byddant yn newid bywydau ac yn rhoi gobaith i deuluoedd bregus yn Kenya, Honduras, Zimbabwe a Cholombia. Un o gryfderau mwyaf

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Cyhoeddi'r milfed myfyrdod wrth ymddeol! **Tudalen 3**

Dwy ddinas a dau gymeriad **Tudalen 4**

O Gefn Gwlad
O'r tu arall heibio **Tudalen 5**

*Deffrwch! neu fydd 'na ddim coffi*
*(parhad o dudalen 1)*

perthynas Cymorth Cristnogol gyda'r enwadau yng Nghymru ydi'r apeliadau enwadol. Rydyn ni'n hynod o falch o'r cydweithio yma er mwyn creu newid a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl dros y byd.

Gwerthfawrogir y cydweithio bob amser – mae apêl enwadol ddwyieithog, er enghraifft, yn ein galluogi i weithio gydag eglwysi a chapeli Cymraeg a Saesneg a chael adnoddau addoli yn y ddwy iaith. Tystiolaeth gadarn eich bod yn gwneud gwahaniaeth. Diolch o galon i Cheryl Williams, y Parch. Judith Morris a'r Parch. Robin Samuel am eu cyflwyniadau wrth ddathlu, diolch a chyhoeddi apeliadau ar gyfer yr enwadau eleni.

Pleser hefyd oedd cael cwmni dau fudiad pwysig i rannu bwrdd gyda Chymorth Cristnogol, sef Amnest Rhyngwladol a Cofleidio'r Dwyrain Canol, dau fudiad sydd wedi bod yn gefnogol iawn i gyfres o wylnosau a gynhaliwyd dros 30 o fisoedd yn ddi-dor ers Ionawr 2021. Penllanw'r gyfres yma oedd Gwylnos Heddwch ym Mhabell yr Eglwysi nos Lun am 6 o'r gloch yng nghwmni Archesgob Cymru, y Parchedicaf Andrew John, Anna Georgina Chitty, y Parch. Andrew Sully a'r Parch. Pryderi Llwyd Jones. Roedd yr awyrgylch yn arbennig iawn. Diolch i bawb am fynychu ac am gymryd rhan. Er bod ein cyfres o wylnosau misol wedi dod i ben, nid dyma'r diwedd ar gynnal gweithgareddau dros heddwch, ac mae cyfleoedd newydd ar y gorwel ar ein cyfer.

Diolch yn fawr iawn i'r llu fu'n gwirfoddoli drwy roi o'u hamser wrth ein bwrdd yn ystod yr wythnos; hebddoch chi mi fyddai bod yn bresennol drwy'r dydd, bob dydd,



Murlun argyfwng hinsawdd Cymorth Cristnogol

yn anodd iawn. Diolch arbennig hefyd i Meilyr Tomos am ein diddanu gyda'i gasgliad o emynau oddi ar ei ail CD a ryddhawyd yn ddiweddar. Mae Meilyr yn gefnogol iawn i Gymorth Cristnogol ers blynyddoedd ac yn cyfrannu canran o werthiant ei CDs i Gymorth Cristnogol. Diolch i ti, Meilyr.

Be sy'n digwydd nesa? Yn COP22 cytunodd arweinyddion y byd i sefydlu cronfa Colled a Difrod. Ond doedd dim cytundeb ar yr amseru na sut i fynd ymlaen â'r gronfa: faint ddylid ei gyfrannu a gan pwy. Mae'r gronfa'n wag ac yn y cyfamser mae cymunedau bregus yn cael eu gwthio ymhellach ac ymhellach i dlodi difrifol. Dyma'r cymunedau sydd wedi cyfrannu leiaf tuag at y newid yn yr hinsawdd. Mae gennym gyfrifoldeb i weithredu.

Rydym yn galw ar lywodraethau dros y byd i sicrhau symud cyllid ar frys i'r gronfa Colled a Difrod. Gallwch chithau fod yn rhan o'r gweithredu drwy wneud un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- trefnu gwasanaeth ar y thema drwy dderbyn a defnyddio ein hadnoddau addoli;
- trefnu Bore Coffi Masnach Deg yn eich cymuned i godi ymwybyddiaeth o anghyfiawnder hinsawdd;
- cyfarfod eich AS/ASenedd dros baned o goffi i drafod sut y gallant gefnogi ymgyrch Colled a Difrod Cymorth Cristnogol.

Am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Llinos: lroberts@cymorth-cristnogol.org


*Llinos Roberts*




Meilyr Tomos yn codi arian at Gymorth Cristnogol




Cynrychiolwyr o EBC yn dathlu diwedd eu hapêl Hadau Gobaith




Andrew John yn yr wylnos heddwch



Judith Morris yn sôn am apêl y Bedyddwyr

# Cyhoeddi'r milfed myfyrdod wrth ymddeol!

Ddiwedd Awst eleni bydd y Parch. John Pritchard yn ymddeol o'i waith fel gweinidog ar ofalaeth y Llechen Las yn ardal Llanberis. Bu John hefyd yn olygydd ar y Pedair Tudalen Gydenwadol am nifer o flynyddoedd. Diolchwn iddo am ei holl wasanaeth a dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Yn ystod y cyfnod hwn mae John hefyd wedi bod yn cyhoeddi myfyrdod wythnosol yng nghylchgrawn yr ofalaeth, sef *Gronyn*. Mae'r myfyrdod olaf ganddo yr wythnos hon yn digwydd bod y 1000fed myfyrdod yn y gyfres, ac fe'i cynhwysir isod.



### Gobaith Maddeuant

'Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwyliadwriaeth yn y nos.' Dyna ddywed Salm 90:4. Gaf fi fentro gwneud rhywbeth na fyddwn fel arfer yn ystyried ei wneud? Rhywbeth na ddylwn ei wneud ond y caf, gobeithio, faddeuant amdano: aralleirio'r adnod, a dweud bod 'mil o rifynnau yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwyliadwriaeth yn y nos'.

Wedi dwy flynedd ar hugain, dyma filfed rhifyn *Gronyn*, a'r olaf. A mwyaf piti, oherwydd cyfuniad o ddiogi a galwadau eraill, bu raid wrth aml i 'wyliadwriaeth yn y nos' er mwyn ei gael yn barod erbyn bore drannoeth.

Yng ngolwg Duw hollalluog a hollwybodol mae mil o flynyddoedd fel un diwrnod, a mil o rifynnau fel un frawddeg. Mi rydw i wedi hen anghofio'r rhelyw o destunau a negeseuon y rhifynnau hynny, ond mae Duw'n cofio'r cyfan gan fod pob gair yn hysbys iddo Ef. Felly hefyd bopeth a ddywedais ac a feddyliais ac a wneuthum i a chithau erioed.

Wrth ddweud bod mil o flynyddoedd fel un diwrnod mae'r Salmydd yn dangos mor frau yw bywyd. Ddeufis yn ôl, arweiniodd Yevgeny Prigozhin luoedd preifat Wagner mewn cyrch aflwyddiannus yn erbyn lluoedd arfog Rwsia, a mawr fu'r dyfalu ers hynny beth a ddigwyddai iddo. Beryg y cawsom wybod ddydd Mercher, pan fu farw Prigozhin, mae'n debyg. Mor wir yw geiriau'r Salmydd: 'y maent fel gwellt yn adfywio yn y bore ond erbyn yr hwyr yn gwywo ac yn crino' (adnod 6).

Ar ddiwedd bywyd, medd y Salmydd, rhaid wynebu Duw'r Barnwr sy'n gosod 'ein camweddau o'th flaen, ein pechodau dirgel yng ngoleuni dy wyneb'. Ac yna, mae'n cydnabod hawl Duw i fod yn ddig, cyn ceisio cymorth i fod yn ddoeth trwy erfyn am ei drugaredd. Gerbron Duw'r Barnwr sy'n gweld a chofio pob pechod a bai, ein hunig obaith yw ei fod Efe ei hun yn cynnig i ni drugaredd: 'Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth' (adnod 12).

Pwy a ŵyr beth a ddigwyddodd i Prigozhin? Gwadu pob cyfrifoldeb am y 'ddamwain hwylus' wna'r Arlywydd Putin. Ond mae Duw'n gwybod; a bydd raid i unrhyw un sy'n gyfrifol ateb am hynny ryw ddydd. Ac nid Putin ac arweinwyr byd yn unig ond, fel y dywed y Salmydd, bawb ohonom am bob pechod a bai.

O gofio dyfnder pechod y byd, rhyfeddod yr Efengyl yw y medrwn sôn o gwbl am faddeuant. Ond gwnawn hynny am fod Duw wedi trugarhau ac wedi caru'r byd cymaint nes rhoi ei Fab yn Waredwr ac yn obaith i bawb a wêl eu hangen am y maddeuant hwnnw. Y mae addewid o faddeuant i'r edifeiriol sy'n pwyso ar Iesu Grist. Rhyfeddod a syndod (ond gwrthun i rai o bosib) ydi bod yr Arglwydd Dduw'n cynnig ei faddeuant i'r gwaethaf. Mae Vladimir Putin a Lucy Letby ymhlith y 'gwaethaf' yn ein golwg ni heddiw. Ac eto, oherwydd gras a chariad Duw, er mor ffiaidd eu gweithredoedd, y mae'r Efengyl yn mynnu ein bod yn dweud fod gobaith i rai felly, yn ogystal ag i ni, trwy edifeirwch a gwir ffydd yn y Gwaredwr Iesu Grist.

(O'r *Gronyn*, 27 Awst gan John Pritchard)

## Gair o gydymdeimlad




Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parch. R. Alun Evans yn ddiweddar. Fe'i cofir fel gweinidog ffyddlon, darlledwr profiadol ac un a fu'n llywio gwaith y BBC a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghymru am gyfnod maith.

Fe'i magwyd yn Llanbryn-mair, yn fab i'r Parch. Robert Evans, a derbyniodd ei addysg yn Nyffryn Dyfi, cyn graddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Fe'i hordeiniwyd yn weinidog yn Seion, Llandysul, cyn iddo droi at fyd darlledu. Ymunodd ag Adran Grefydd BBC Cymru yn 1964. Cafodd yrfa amrywiol gyda'r BBC – a bu'n cyflwyno'r rhaglen ddyddiol *Heddiw* am ddeng mlynedd. Fe oedd sylwebydd pêl-droed cyntaf y BBC yn y Gymraeg, a thorrodd dir newydd drwy sylwebu yn Gymraeg ar gêm ragbrofol Cwpan y Byd rhwng Cymru a'r Alban yn 1977.

Ar ôl ymddeol o fyd darlledu, dychwelodd i'r weinidogaeth, a bu'n gwasanaethu gyda'r Annibynwyr yng Nghaerffili a Gwaelod-y-garth nes ei ymddeoliad ddiwedd 2014. Bu hefyd yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg rhwng 2014 a 2016.

Cydymdeimlwn â'i briod, Rhiannon, a'i blant, Rhys a Betsan, a'r teulu oll.

# Dwy ddinas a dau gymeriad


Llun: http://www.victorianweb.org/art/illustration/barnard/ttc/index.html

Yn ystod yr haf dyma benderfynu darllen *A Tale of Two Cities*, Dickens. Dw i'n hoffi dawn disgrifio cymdeithas a chymeriadau yr awdur Fictoraidd enwog. Y cefndir yw Paris a Llundain y 18fed ganrif, adeg y Chwyldro Ffrengig. Mae'r nofel hanesyddol yn cynnwys nifer o gymeriadau lliwgar a diddorol, o'r uchelwyr, gwrthryfelwyr a rhai yn y canol yn Ffrainc i amrywiaeth o gymeriadau o sawl dosbarth yn Llundain. Roedd dau gymeriad wedi dal fy sylw yn arbennig, sef Sydney Carton a'r wniadwraig sydd yn mynd gydag e i'r gilotîn.

Mae Carton yn is-bartner i fargyfreithiwr o'r enw Stryver. Caiff ei alw'n 'siacal' gan hwnnw am mai ei allu cyfreithiol ef sy'n ennill achosion i Stryver, er mai hwnnw sy'n cael y clod, fel y mae siacal yn helpu llew i ddal ei ysglyfaeth ond y gath fawr sy'n ymorchestu. Mae Stryver yn llwyddo i ryddhau Charles Darnay o'r cyhuddiad o ysbïo wrth i Carton ddangos y tebygrwydd agos rhyngddo fe a Darnay, oedd yn tanseilio tystiolaeth yr erlyniad.

Mae'n caru Lucie, merch meddyg sydd wedi ei rhyddhau o'r Bastille ac wedi symud i Lundain. Mae'n datgan ei gariad ond yn sylweddoli na all hithau ei garu fe. Serch hynny, mae'n addo croesawu unrhyw aberth allai fod o les iddi hi a'i hanwyliaid. Mae hi'n priodi Darnay, nai i uchelwr Ffrengig sydd wedi newid ei enw.

Ym merw'r chwyldro, caiff Darnay ei alw 'nôl i Baris, ei garcharu a'i gyhuddo o fod yn uchelwr, ond caiff ei ryddhau trwy dystiolaeth tad Lucie, Doctor Manette. Serch hynny, caiff ei ailrestio oherwydd tystiolaeth ysgrifau gan y meddyg ers ei amser yn y Bastille yn dangos drygioni teulu Darnay.

Mae Carton yn cynllunio i gyfnewid lle â Darnay er mwyn iddo fod gyda Lucie a'u merch fach. Mae'n fodlon rhoi ei fywyd er eu mwyn.

Yn y carchar cyn mynd i'w ddienyddio, mae Carton yn cyfarfod â'r wniadwraig ifanc, sydd hefyd ar y ffordd i'r gilotîn, wedi cael ei chyhuddo ar gam o gynllwyn. Wrth ddeall beth mae Carton yn ei wneud, mae'n ei edmygu ac yn closio ato. Mae'n cydnabod ei fod wedi ei galluogi i godi ei meddwl at yr Un a roddwyd i farwolaeth er mwyn i ni gael gobaith a chysur yn ein dydd. Mae'n gofyn a gaiff hi ddal ei law gydol y daith yn y cart i'r lladdfa. Mae e'n ei chysuro trwy ei hannog i afael yn ei law ac i gadw ei llygaid arno drwy'r amser. Trwy hyn mae hi'n cael tawelwch meddwl.

Mae Carton yn gwneud i ni feddwl am yr Arglwydd Iesu, wrth gwrs. Roedd y newid lle yn bosibl oherwydd y tebygrwydd rhwng Carton a Darnay. Rhyfeddod yr efengyl yw bod Duw'r Mab wedi dod mewn cnawd, wedi uniaethu â'r ddynoliaeth drwy ddod yn ddyn. Roedd yn union fel ni, ond heb bechod, yn ddyn yn ystyr lawnaf y gair. Ac oherwydd hynny, gallai fynd i'r lladdfa yn ein lle; gallai roi ei fywyd yn bridwerth dros ddynion (a menywod) eraill. Gwnaeth Carton hyn o gariad anhunanol at Lucie. Gallasai fod wedi aros i Darnay farw a'i chymryd yn wraig iddo fe'i hunan, ond aberthodd ei hunan er mwyn iddynt fod gyda'i gilydd. Rhoes yr Arglwydd Iesu ei hun drosom er mwyn i ni gael rhan yn ei ogoniant Ef, a'i etifeddiaeth Ef fel y cyntaf-anedig, er mwyn i ni fod yn gyd-etifeddion â Christ.

Yna mae anogaeth Carton i'r wniadwraig ifanc yn ddarlun gwan o ofal yr Arglwydd Iesu dros ei bobl. Wrth i ni gael ein huno ag Ef mewn ffydd, mae'n golygu marw i ni ein hunain, codi ein croes a'i ganlyn. Ond fe ddaw tangnefedd arbennig i ni wrth wybod ei fod yn cydio yn ein llaw ar hyd y ffordd, ac yn ein hannog i ffocysu ein golwg arno Fe o hyd.

Ces fwynhad o ddarllen y nofel, a bendith wrth gyfeirio'r meddwl at ein Ceidwad bendigedig.

*John Treharne*



# O Gefn Gwlad

## O'r tu arall heibio

Byddwn o dro i dro yn ein Cylch Trafod yn datgan mor ffodus ydym o fyw ym Mhenllyn, a'r mwyafrif ohonom yn ardal y Sarnau a Chefnddwysarn. Does neb yma hyd y gwyddom yn cysgu allan; wyddon ni ddim am neb sy'n diodde' o dlodi erchyll, o ddiffyg bwyd a diod, a lloches. Mae pawb yn ymddangos yn byw bywyd dedwydd gweddol ddibroblem, neb yn ddi-waith a chymdeithasau diwylliannol a chrefyddol ar gael i'r rhai sy'n eu deisyf.

O'r Sarnau does ond cwta bedair milltir i'r Bala, a Llyn gogoneddus Tegid, sy'n wahanol bob tro yr ewch i'w olwg. Mae'n gorwedd yno rhwng mynyddoedd cwbwl arbennig a welir o'i lannau: y Berwyn, yr Aran, Arenig a Chader Idris, sydd, gyda'r llyn, yn creu un o olygfeydd harddaf ein gwlad. A gallwn ni, drigolion y fro, wledda ar ei harddwch unrhyw adeg y mynnon ni. Daw'r cannoedd yn dyrfaoedd bob gwanwyn a haf i fwynhau ar ei lan, ninnau yn byw naill ai yn ei olwg neu'n agos ato. Digon o siopau o fewn cyrraedd yn y dre, a digon o lwybrau mewn cefn gwlad hyfryd i'w troedio. Fel y mynegai'r prifathro yng ngwasanaethau boreol Ysgol Tŷ Tan Domen slawer dydd wrth ddarllen un o weddïau'r Llyfr Gweddi Cyffredin: 'syrthiodd ein llinynnau mewn lleoedd hyfryd'.

'Dyw ochor arall bywyd ddim ymhell i ffwrdd, wrth gwrs. Codwch bapur newydd ac fe'i cewch, fel y darllenais y dydd o'r blaen wrth eistedd yn yr haul dan y goeden afalau yn mwynhau paned o goffi:

> Pan fu farw ... yn 82 oed yn Ysbyty … y dydd o'r blaen roedd o'n ddigartre' a dim ond ceiniog oedd ganddo ar ei elw. Roedd achosion ei farwolaeth yn niferus ac yn adlewyrchu blynyddoedd o dlodi erchyll. Achosion oedd yn cynnwys problemau difrifol efo'i arennau a'i galon, a lefelau trychinebus o isel o albwmin yn ei waed, y cyfan yn arwyddion o ddiffyg maeth difrifol. Byddai, yn ôl y sôn, yn dibynnu am unrhyw fath o gynhaliaeth ar ymweliadau ysbeidiol â chanolfan banc bwyd Byddin yr Iachawdwriaeth.

Ie, un yn unig o'r cannoedd, os nad miloedd, o rai tebyg yn ninasoedd, trefi a phentrefi gwledydd Prydain. Ond nid ym Mhenllyn! Mae pethau mor wahanol yma. Mewn blynyddoedd o ymweld â'r Bala bron yn ddyddiol, welais i'r un tlotyn yn cerdded y stryd nac yn begera am fara. Ydyn nhw'n bod yma? Wel, y mae yn rhai o'r siopau gyfle i chi gyfrannu at fanc bwyd De Meirionnydd, ac yn ôl y sôn y mae yn y dre hon rai sy'n dibynnu ar haelioni eraill i fwydo'u hunain.

'Hy!' medden ni, y da ein byd, 'pam na chwilian nhw am waith er mwyn ennill cyflog i gynnal eu hunain.'

Mae yma hefyd, neu dyna'r sôn, rai sy'n gaeth i gyffuriau. Ond nid yw'r rhain yn ein cyffwrdd ni; gallwn fynd ymlaen i fyw ein bywydau digon syml a didramgwydd heb wneud drwg i neb, mewn cytgord efo pawb.



Y Samariad trugarog gan Van Gogh

Llun: https://www.vincentvangogh.org


Ydi, mae hi mor braf arnon ni, nes y daw hen atgof am un o ddamhegion Crist i'r meddwl. Gwyddoch amdani siŵr iawn – Dameg y Samariad Trugarog am y gŵr a syrthiodd ymysg lladron ac a adawyd yn hanner marw ar fin y ffordd oedd yn mynd o Jerwsalem i Jericho. Gofiwch chi ddau o gymeriadau'r ddameg – yr Offeiriad a'r Lefiad?

Ie, dau ŵr eglwysig, dau oedd yn byw bywyd dilychwin, mae'n siŵr, yn mynychu addoliad yn gyson, a hyd y gwyddom yn byw bywyd heddychlon call, tebyg i'r rhai y dywedwn amdanynt eu bod yn byw yn agos i'w lle. A sut y gallwch chi feirniadu pobol sy'n byw yn agos i'w lle, fel y ni yma? Nid yn berffaith, debyg iawn, yn **agos** i'n lle, dwi'n ddeud.

Rhai felly yn sicr oedd yr Offeiriad a'r Lefiad. Allech chi ddim codi bys atyn nhw. Ond eu condemnio wnaeth Crist! Mewn difri, condemnio dau ddyn da! Pam? Mi gofiwch, dwi'n siŵr, ac y mae cofio yn ein hysgwyd ninnau, gobeithio – digon, siawns, i'm codi i o gysgod y goeden afalau i o leia' sgrifennu siec i Fyddin yr Iachawdwriaeth. Beth oedd camwedd mawr y ddau ddyn da yn y ddameg? Dim ond mynd o'r tu arall heibio!

*Elfyn Pritchard*

# ADNABOD




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.**

## 39 'ac efe a gasglwyd at ei bobl'

**Darllen: Genesis 25:1–11**

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 168)**

Wrth gloi'r gyfres yma ar Abraham, yr wyf am nodi fy niolch i olygyddion *Cenn@d* am gael gwneud y gwaith. Mae wedi bod yn fendith arbennig, a cefais olwg newydd dro ar ôl tro ar berthnasedd yr hanes yma i 'mywyd ysbrydol fy hun. Rwyf wedi cael fy atgoffa o'r newydd o'r cyfoeth sydd yng ngair Duw, ac wedi fy nghyfoethogi drwy'r paratoi.

Un o'r pethau sydd wedi aros yw'r gwirionedd fod y Beibl, dair gwaith, yn cyfeirio at Dduw yn arddel Abraham fel ffrind iddo: 'Onid ti, ein Duw, a yrraist drigolion y wlad hon allan o flaen dy bobl Israel, a'i rhoi hi am byth i had Abraham, dy gyfaill?' (2 Cronicl 20:7); 'Ti, Israel, yw fy ngwas; ti, Jacob, a ddewisais, had Abraham, f'anwylyd' (Eseia 41:8); 'Felly cyflawnwyd yr Ysgrythur sy'n dweud, "Credodd Abraham yn Nuw, ac fe'i cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder"; a galwyd ef yn gyfaill Duw' (Iago 2:23).

Mae'n debyg eich bod chi'n llawen iawn o wybod fod 'na rywrai'n eich galw'n ffrind, ond mae yna rywbeth dealladwy am hynny. Beth sy'n annealladwy yw sut mae'r Duw cyfiawn, sanctaidd, hollddigonol yn barod i'n goddef ni fel ffrindiau. Pa fath o ras a thrugaredd yw hyn? Eto, fe wyddom mai dyna yw braint pobl Iesu: 'Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad. Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi' (Ioan 15:15–16).

Heddiw, rydym yn edrych ar farwolaeth Abraham, ac yn ôl Alun Morton Thomas, mae cyfieithiad William Morgan o adnod 8 yn cyfleu'r gwreiddiol yn rhagorol: 'Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed teg, yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau; ac efe a gasglwyd at ei bobl.' Mae'r cymal cyntaf yn llythrennol yn cyfeirio at y gŵr yma'n cymryd ei anadl olaf. Roeddwn yn darllen bod pobl yn anadlu tua 16 gwaith bob munud ar gyfartaledd, tua 960 gwaith yr awr, 23,000 o weithiau'r dydd; ac os byddwch byw i fod yn 80, byddwch wedi cymryd tua 672 miliwn anadliad! Wrth bregethu yn Athen dywed Paul am y Duw sy'n 'rhoi i bawb fywyd ac anadl a'r cwbl oll' (Actau 17:25). Ond mae yna anadl olaf, a bellach dyma oedd hanes Abraham, fel pob un ohonom. Cyn cymryd yr anadl hwnnw, mae Abraham wedi rhoi trefn ar ei bethau, wedi trosglwyddo'r cyfan o'i eiddo i Isaac, yr un oedd yn etifedd, yn had, ac wedi cofio hefyd am y plant eraill. Ond nid iddynt hwy yr oedd y wlad, mwy nag i Ismael.

Bellach mae'n 175 oed, union gant o flynyddoedd ar ôl dod i wlad yr addewid, er nad oedd yn berchen ar fwy na ffynnon ac ogof yn y lle hwnnw. Ond yr oedd 'yn gyflawn o ddyddiau', hynny yw, yr oedd wedi ei fendithio, wedi ei fodloni, ac yn marw'n dawel. Y gwir yw, pa un a ydych yn byw nes y byddwch yn gant, neu'n marw yn ifanc, mae yna ffordd o farw'n dawel. Cofiaf y Parch. Gareth Davies yn adrodd am gael gwasanaethu yn ystod salwch ac angladd un o ferched ifanc Gwauncaegurwen. Fel mae'n digwydd, bu i'w chwaer farw ychydig flynyddoedd yn unig yn ôl, ac yr oeddwn yn siarad â phobl oedd yn ei hadnabod hithau yn ei henaint. Yr hyn oedd yn gyffredin am y ddwy oedd eu bod wedi marw'n dawel, wedi treulio'u bywyd yn dilyn Iesu ac yn ymddiried ynddo.

Beth arall fyddai wedi bod yn ddigon i Abraham? Roedd wedi siomi'r Un a'i galwodd i berthynas bersonol ag ef ei hun droeon, ac eto, yr oedd wedi adnabod trugaredd a thynerwch y Duw hwn. Tebyg ei fod ef, fel ninnau, wedi ceisio bod yn ffyddlon, ond wedi methu, a'r methiannau hynny wedi eu cofnodi. Ond nid yn y nefoedd! 'Pwy sydd Dduw fel ti, yn maddau camwedd, ac yn mynd heibio i drosedd gweddill ei etifeddiaeth? Nid yw'n dal ei ddig am byth, ond ymhyfryda mewn trugaredd. Bydd yn tosturio wrthym eto, ac yn golchi ein camweddau, ac yn taflu ein holl bechodau i eigion y môr' (Micha 7:18–19). Un o freintiau mwyaf arwain eglwys oedd cael cadw cwmni i'r bobl hyn oedd yn marw'n dawel, yn pwyso ar waith, ar berson, ar drugaredd Iesu.

Wedi marw, mae'r Beibl yn glir am ein tynged fel plant, fel ffrindiau Iesu: 'ac efe a gasglwyd at ei bobl'. Nid cael ei gladdu gyda'i dylwyth – roedd y rheini yn ôl yn Ur y Caldeaid! Mae awdur Genesis yn mynd ymlaen i ddweud bod ei gorff marwol yn cael ei gladdu gyda Sarah (adn. 10), ond o ran ei enaid, mae yng nghwmni 'ei dylwyth', teulu pobl yr Arglwydd.

Un o'r bobl oedd yn byw ychydig wedi cyfnod Abraham oedd Job, ac yr oedd yntau'n rhannu yr un hyder am dynged eneidiau (a chyrff) y teulu yma: 'Ac er ar ôl fy nghroen i bryfed ddifetha'r corff hwn, eto caf weled Duw yn fy nghnawd: Yr hwn a gaf fi i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall; er i'm harennau ddarfod ynof' (Job 19:26–7). Dyma welodd Steffan: ' "Edrychwch, 'rwy'n gweld y nefoedd yn agored, a Mab y Dyn yn sefyll ar ddeheulaw Duw." ... Ac wrth iddynt ei labyddio, yr oedd Steffan yn galw, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd."' (Actau 7:56,59) Mae ein hyder, fel hyder Abraham, yn deillio o'r etifeddiaeth sydd ar ein cyfer: 'yr ydym ni sydd yn y babell hon yn ochneidio dan ein baich; nid ein bod am ymddiosg ond yn hytrach ein harwisgo, er mwyn i'r hyn sydd farwol gael ei lyncu gan fywyd. ... Yr ydym yn llawn hyder, meddaf, a gwell gennym fyddai bod oddi cartref o'r corff a chartrefu gyda'r Arglwydd.' (2 Corinthiaid 5:4,8)

1. Roedd rhywun yn dweud wrthyf y dydd o'r blaen eu bod yn ffrindiau â mi ar Facebook! Pa berson yw ein ffrind gorau, a sut mae Iesu yn ffrind sy'n rhagori ar bob ffrind?
2. Sut y medrwn ddysgu ein hunain i fod yn fwy ystyriol o'r Duw sy'n rhoi pob anadliad inni?
3. Pa mor aml y byddwch yn meddwl am 'farw'n dawel'? Wrth ystyried yr hyn ddywed y Beibl, sut y mae diogelu hynny o flaen llaw?

Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar iawn gyfraniad y Parch. Meirion Morris i *Cenn@d* dros y flwyddyn ddiwethaf yma. Bu wrthi'n ddiflino a phrydlon yn paratoi ei astudiaethau ei hun ar fywyd Abraham yn Genesis. Dyma waith sydd wedi bod yn anogaeth i'r Cristion ac yn her inni fyw'r bywyd o ffydd sydd yn plesio'r Arglwydd yn ein dyddiau ninnau. Y mae'n gyfraniad a fydd ar gael inni am flynyddoedd i ddod wrth fynd ati i astudio'r penodau hyn o lyfr Genesis ac y bydd modd troi atynt yn yr ôl-rifynnau ar wefan *Cenn@d*. Dymunwn bob bendith i Meirion i'r dyfodol ac edrychwn ymlaen at gyfraniadau achlysurol pellach ganddo i'r papur. (Y Golygyddion)

BBC radio cymru

**Radio Cymru**
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 3 Medi, am 7:30yb a 16:30yp**
Catrin Angharad Jones yn cyflwyno emynau gan Gôr Esceifiog

**Sul, 3 Medi, am 12yp**
Oedfa dan ofal Aled Myrddin, Machynlleth

# Encil C21 – 30 Medi




Gwreiddiau fydd thema encil C21 eleni. Fe'i cynhelir yn Eglwys Crist, y Bala, ddydd Sadwrn, 30 Medi 2023, rhwng 10.00yb a 3.00yp. Rydym yn falch o'i gynnal mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Cymod. Byddwn yn bwrw golwg ar wreiddiau C21 yng nghwmni Enid Morgan ac Anna Vivian Jones. Bydd Guto Prys ap Gwynfor a Mabon ap Gwynfor yn trafod gwreiddiau Cymdeithas y Cymod.

Cawn gyfle i fyfyrio ar sail cerddoriaeth yng nghwmni Andrew Sully, cyn rhannu cinio bys a bawd.

Yn y prynhawn byddwn yn trafod 'Gwreiddiau a gweithredu' yng nghwmni panel – Awel Irene (Cymdeithas y Cymod), Gareth Ioan (Cristnogaeth 21) ac Andrew Sully (Cymorth Cristnogol) – a chyfranwyr y bore.

Cost yr encil fydd £25, a fydd yn cynnwys paneidiau a lluniaeth bys a bawd amser cinio. Telir y ffi ar y dydd ond gwerthfawrogir pe byddech yn cofrestru ymlaen llaw drwy anfon gair at cristnogaeth21@gmail.com erbyn Dydd Llun, 25ain Medi.

Edrychwn ymlaen at eich cwmni.

C21

# Cerddi newydd gan Aled Jones Williams, gwyrthiau Dewi Sant, Henry Vaughan a Waldo – i gyd mewn rhifyn newydd o'r *Traethodydd*

Er nad cylchgrawn barddoniaeth mo'r *Traethodydd*, ceisiwn gynnwys cerddi ym mhob rhifyn os yw'n bosibl, a phleser y tro hwn yw cyhoeddi cyfres o gerddi gan y beirdd Robert Lacey ac Aled Jones Williams. Mae Aled, wrth gwrs, yn hen law, a denodd sylw Rowan Williams yn ei ddarlith 'Cerdd a Chredo: ydi cerdd grefyddol yn bosibl heddiw?' a ymddangosodd yn rhifyn Ionawr o'r cylchgrawn. Ceir dwy gerdd newydd ganddo, yr un mor anghonfensiynol ag erioed, yn y rhifyn hwn ynghyd â thair cerdd gan awdur newydd i'r *Traethodydd*, sef Robert Lacey. Bydd pawb o'n darllenwyr yn gwerthfawrogi'r cerddi hyn, mi wn.


O ran y deunydd arall, ceir ysgrif fanwl gan Gerald Morgan yn trafod rhai o wyrthiau Dewi Sant o lawysgrif ganoloesol na wyddai fawr neb amdani o'r blaen. Nodwedd amlycaf Buchedd Dewi gan Rigyfarch yw'r gwyrthiau yr honnir i'r sant eu cyflawni, ond mae'n amlwg fod ffynonellau eraill yn cofnodi gwyrthiau eraill yn ogystal. Yn yr ysgrif hon mae Gerald yn disgrifio'r rhain ac yn eu dadansoddi.

Mae Pryderi Llwyd Jones yn parhau â'i gyfres ar feirdd mawr Saesneg-Gymreig y ffin o'r cyfnod modern cynnar. Ac yntau eisoes wedi trafod gwaith George Herbert a Thomas Traherne, ceir yma'r ysgrif gyntaf o ddwy ar Henry Vaughan, y meddyg o Dal-y-bont ar Wysg, awdur llinellau rhyfeddol fel 'There is in God, some say, a deep but dazzling darkness' a cherddi a gafodd y fath ddylanwad ar awen Waldo Williams. Edrychwn ymlaen at ddarllen ail ran yr ysgrif yn y rhifyn nesaf.

Trafod bywyd a gwaith yr emynydd, y bardd a'r ysgolhaig John Gwili Jenkins a wna'r Golygydd, a hynny ar achlysur canmlwyddiant a hanner ei eni, ac mewn erthygl-adolygiad helaeth, mae Ceri Davies yn trafod campwaith beirniadol gan y diweddar Brynley F. Roberts, yntau'n gyn-olygydd *Y Traethodydd*, sef *Edward Lhwyd: Naturalist, Antiquary, Philologist*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Wasg Prifysgol Cymru.

Mewn tri adolygiad swmpus mae Dafydd Glyn Jones yn trafod casgliad A. Cynfael Lake, *Beirdd, Prydyddion a Baledwyr y Ddeunawfed Ganrif*; Dorian Llywelyn, yntau'n byw yn Califfornia ers tro byd ond yn dal i gyfrannu at y bywyd llenyddol yng Nghymru, yn adolygu astudiaeth ddiweddar M. Wynn Thomas, *R. S. Thomas to Rowan Williams: The Spiritual Imagination in Modern Welsh Poetry*, a'r ysgolhaig ifanc Dewi Alter o Brifysgol Caerdydd yn gwethfawrogi campwaith Huw Pryce ar hanesyddiaeth Gymreig, *Writing Welsh History: from the Early Middle Ages to the Twenty-first Century.*

Rhwng popeth mae yna wledd yn y rhifyn hwn i bwy bynnag sy'n ymfalchïo yng nghyfoeth ein traddodiad llenyddol. Anogwn bawb eto nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn o'r *Traethodydd*, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook.




Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Beth wyf fi, a phwy wyt ti?*

**Emyn 262 'Mewn anialwch rwyf yn trigo'**

**Gweddi**

Arglwydd Iesu Grist, caniatâ i ninnau heddiw dy anrhydeddu yn ein ffordd o feddwl, yn ein dymuniadau, yn ein dull o fyw. Trig ynom, Ysbryd Glân. Glanha ein gwerthoedd, uniona ein camre. Gofynnwn hyn fel y bydd i'r hyn a broffeswn ddod yn realiti diragrith ynom, yn fywyd sydd mewn gwirionedd yn gogoneddu'r Tad. Amen.

**Darllen – Rhufeiniaid 12:9–21 'Bywyd da'**

**Gweddi wrth ymateb**

Arglwydd, ger dy fron y mae pob calon yn hysbys ac nid oes unrhyw air ar ein tafod nad wyt wedi barnu ei gymhellion nac yn gwybod ei effeithiau.

Cyffeswn i ti fod cymaint o agweddau o'n bywydau'n gwbl hunanol. Cyffeswn fod ein cariad fel unigolion ac fel cynulliadau o'th bobl yn fynych yn rhagrithiol ac yn anwylo drygioni. Cyffeswn ein bod yn oer ein serch tuag atat. Cyffeswn i ti nad yw gobaith yr efengyl yn ein cyffroi fel y dylai. Cydnabyddwn ein bod yn ddi-weddi, yn araf i gefnogi rheidiau'r anghenus, yn amharod ein lletygarwch. Cyffeswn yr anghrediniaeth sydd ynom a'r amheuaeth real nad wyt yn gyfiawn nac yn amserol yn dy farn. Cadw ni rhag gwag-ymffrost. Dysg ni i fod yn anrhydeddus ac yn heddychlon ein hysbryd a'n ffyrdd. A dysg ni beth yn wir yw caru hyd yn oed ein gwrthwynebwyr.

Dad nefol, trown atat i geisio dy faddeuant tirion, grasol, anhaeddiannol, di dy hun ac yr ydym yn gwerthfawrogi o'r newydd ein hangen am iachawdwr, am gyfryngwr, am nerth dy Ysbryd. Arglwydd, cryfha ni i fyw bywydau da sy'n deilwng ohonot yn Iesu Grist. Cynhesa ein calonnau i 'garu'r Iesu yn fwy ffyddlon a'i wasn'aethu. Dweud yn dda mewn gair amdano, rhoi fy hun yn gwbl iddo'. Amen.

**Emyn 113 'Duw Abraham, molwch ef'**

**Darllen – Exodus 3:1–15 'Tân ysol yw Duw'**

***Anialwch***

Heblaw am yr ystyr daearyddol amlwg lle roedd yn gweithio y dydd hwnnw, roedd Moses mewn sawl ffordd ffigurol arall ar 'gyrion yr anialwch' (adn. 1). Wedi ei gipio o afon Nîl i'w fagu fel tywysog ym mhalas Pharo, dewisodd uniaethu ei hun â thlodi diurddas ei bobl. Wedi llofruddio Eifftiwr bu'n rhaid iddo ffoi o afael y gyfraith, ac yn awr wynebai anialwch hesb oherwydd ei ffolineb byrbwyll ei hun. Ar gyrion yr anialwch gwelai golli anrhydedd a hawddfyd y palas brenhinol, ei addysg, ei ddiwylliant, ei foethusrwydd. Ar 'gyrion yr anialwch' roedd yn byw ymhlith pobl Midian ac wedi ei amddifadu o gwmni ei bobl ei hun.

Er hyn, 'ar gyrion yr anialwch' dewisodd yr Arglwydd drwy ei ras alw llofrudd i gyflawni diben ei eni, ei fagwraeth, ei addysg.

***Cyfarfyddiad***

Ni chyfyngir yr Arglwydd i gwrdd â'i bobl mewn teml, nac eglwys na chapel. Ac nid oes reidrwydd arno i ailberfformio drama ysgytwol ei ymddangosiad mewn perth yn llosgi heb ei difa. Mewn llawer dull a modd gall yr Arglwydd ddatguddio'i hun.

A heddiw, yn hanes Cristnogion ar draws y byd, mewn myrddiwn o ffyrdd, mewn myrdd o leoliadau daw ei bobl o hyd i 'fan yn ymyl Duwdod i bechadur wneud ei nyth'. Nid yr un yw profiad pob un. Ond ar ryw adeg ni fedr unrhyw Gristion osgoi sefyll ym mhresenoldeb yr Arglwydd yng nghysgod croes Iesu Grist. Yno, drwy waith mewnol yr Ysbryd Glân, cawn wir fesur i'n rhinweddau, dadleniad o wir angen ein calonnau, ac ateb trugaredd Duw i drueni marwol y byd. Daeth Un na wybu beth oedd pechu yn bechod drosom ni oll (2 Corinthiaid 5:19–21). Cafodd ei glwyfo drosom ond ni allodd angau nac uffern na'r bedd 'amgyffred' y goleuni a ddaeth i'r byd yn Iesu Grist. Ni allodd angau ei hun ddiffoddi'r fflam. Daw'r Arglwydd croeshoeliedig atom fel concwerwr byw, fel Arglwydd pob un dim.

***Gwaredwr ffyddlon***

Nid man i falchder mo presenoldeb Crist, ond man i ninnau hefyd ymostwng i ddiosg ein hesgidiau ym mhresenoldeb Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob. Dyma'r Arglwydd sy'n ffyddlon ac yn cadw ei air i fendithio'r holl fyd drwy 'had Abraham'.

Ond heblaw am fod yn ffyddlon i'w air, ychwanegir at ddealltwriaeth Moses o'i Arglwydd pan ddeallodd ei fod 'wedi gweld adfyd fy mhobl yn yr Aifft ... a gwn am eu doluriau. Yr wyf wedi dod i'w gwaredu ... a'u harwain o'r wlad honno i wlad ... yn llifeirio o laeth a mêl'. Dyma'r Arglwydd sydd yn abl i gadw ei *addewid,* yn Arglwydd sydd hefyd yn *waredwr* i'w bobl.

***Addewid***

Addewid yr Arglwydd i Moses yn ei arswyd oedd: 'Byddaf fi gyda thi.'

Sacrament allanol o addewid bersonol, fewnol yr Arglwydd i Moses oedd hyn: 'A dyma fydd yr arwydd mai myfi sydd wedi dy anfon: wedi iti arwain y bobl allan o'r Aifft, byddwch yn addoli Duw ar y mynydd hwn' (adn. 12). Wrth fwrdd y Cymun, drwy ffydd cawn ninnau hefyd edrych yn ôl ar waredigaeth ac ar addewidion yr Arglwydd drwy Iesu Grist.

***Myfi yw***

Nid digon gan Moses oedd gair yr addewid.

Mynnai Moses adnabod 'enw' yr hwn oedd yn ei alw. Ei 'enw' yw ei gymeriad.

'Ydwyf yr hwn ydwyf' oedd ymateb enigmatig Duw i'w ymholiad. Dyma'r hwn sydd yn 'Ydwyf' heb na dechrau na diwedd; nid oes rhagflaenydd nac olynydd iddo, ac ni all unrhyw un gystadlu ag ef. Ef yw Bywyd. Ef yw'r 'Myfi yw' anorchfygol.

Credwn fel Cristnogion bod y bywyd hwn wedi dod yn gnawd a phreswylio yn ein plith ac y cawsom gipolwg ar ei ogoniant dwyfol fel unig-anedig y Tad. Credwn, o'i dystiolaeth ei hun, mai'r 'Myfi yw' ysblennydd hwn yw Iesu Grist ei hun.

Dyma'r 'Myfi yw' a fynnodd gyflwyno'i hun i'r rhai oedd yn newynu'n ysbrydol fel 'bara'r bywyd'. I'r rhai a siomwyd gan gau-fugeiliaid daw atom fel 'y drws' i bresenoldeb Duw. Ef, nid llai, yw'r 'bugail da' a roddodd ei hun dros ei braidd, i'w galw ynghyd o bob cwr o'r byd. Dyma'r 'Myfi yw' sy'n 'atgyfodiad ac yn fywyd' i bob un sy'n trengi, ac i'r rhai sydd ar goll 'ar gyrion yr anialwch' mynnodd mai ef ei hun 'yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd'.

**Gweddi**

Arglwydd Iesu, 'tydi yw'r ffordd a mwy na'r ffordd i mi'. Ynot ti y llyncir ein holl angen, a thrwot ti y bodlonir ein holl raid. Addolwn di. Amen.

**Emyn 541 'O Fab y dyn'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru